MYNNWN 'IE DROS GYMRU' ✓ ... A PHARCH I'R DDAEAR ✓

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 22 Chwefror / Mawrth 2011 PRIS: £1

NEWYDDION AM YMGYRCH Y DDAEAR

Elw Tsieina'n galw wrth i gwmni glo o Appalachia gamu i Gwm Nedd

Nofel newydd Gymraeg — Paratown nawr i osgoi dyfodol hunllefus i Gymru a'r byd

*Yn swyddogol:* 2010 y flwyddyn boethaf, a'r wlypaf, i'r byd ers i recordiau gychwyn — *Faint mwy o brawf sydd ei angen?*

BP a Rwsia i'r Arctig — Llywodraeth 'ConDem' San Steffan yn ochri gyda difrodwyr y Ddaear

JILL EVANS ASE GORDON JAMES SARA ASHTON
ELENID JONES CHARLOTTE DAVIES

ISSN 1755-3504
02
9 771755 350009

CANCUN — RHESWM DATHLU NEU 'ECO-LOFRUDDIAETH'?
► TYWYSOG SIARL YN GALW AM GYTGORD Â'R DDAEAR
► PARATOI AT GYNHADLEDD HINSAWDD BANGOR
► DELIO Â CHEMEGAU OFFER ELECTRONIC
► GWOBR AUR 'WERDD' YSGOL LLANLLECHID

*YMGYRCHOEDD CAREDIGION Y DDAEAR LEDLED Y BYD*

# Y PAPUR GWYRDD

***Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***

Golygydd: Hywel Davies
Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162 Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu, gan ddefnyddio inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen, gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.



**YMGAIS YW'R *PAPUR GWYRDD* I SICRHAU BOD YR IAITH GYMRAEG YN CAEL BOD YN GYFRWNG UNIONGYRCHOL I HYBU CEFNOGAETH I FUDIAD Y DDAEAR YNG NGHYMRU. GWELWN HYNNY FEL CYFRANIAD PWYSIG I DDYFODOL Y GYMRAEG, AC FEL CYFRANIAD HEFYD AT LWYDDIANT YR YMDRECHION I GYNNAL YR ECO-SYSTEMAU PLANEDOL SY'N EIN CYNNAL NI.**

# CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Glo 'global' yn cael gafael ar Gwm Nedd
*Distryw BP — yr Arctig nesaf?*

**4** GOLYGYDDOL
- Nodi cynnydd y $CO_2$
- Twf anghyfrifol glo Cymru

**5** CIP AR EIN DYFODOL
**Sara Ashton** — Y syniadau sy'n sail i'w nofel newydd am ddyfodol hunllefus




**6** **Ennill a Cholli**
Hanesion Ymgyrch y Ddaear

**7** CYTUNDEB CANCUN
**Gordon James** — Rheswm o'r diwedd i'r Ddaear ddathlu neu 'eco-lofruddiaeth'?



**8** CYNHADLEDD BANGOR
**Elenid Jones** — Beth wnawn i ffrwyno newid hinsawdd?
**Charlotte Davies** — Tywysog Siarl yn galw am gytgord â'r Ddaear

**9** **Jill Evans ASE** — Rheoli gwenwyn ein hoffer Trydanol



2010 — y flwyddyn boethaf

**10** **Daear-iadur**
Beth sy' 'mlaen yng Nghymru?

**11** YSGOLION
Llanllechid ar y blaen
**Y byd a'r aelwyd**
Mynd i banig? Gwadu? Na! Plannu coed afalau

***MATRESI ORGANIG ABACA , tudalen 12***


# Gabrielle Giffords — annog dyfodol o ynni'r haul

TRYCHINEB ARIZONA

**WRTH iddi gael ei hethol i Gyngres yr Unol Daleithiau yn 2006, dangosodd y Gyngreswraig Gabrielle Giffords o Arizona'n fuan ei bod yn frwd o blaid ymchwil wyddonol, ynni adnewyddol, ac yn arbennig ynni haul.**



Gabriell Giffords. Llun: Arizona State University

Cafodd y Gyngreswraig ei hanafu'n ddifrifol yn Tucson Arizona ym mis Ionawr wrth i ŵr ei saethu hi ac eraill gyda dryll yn ystod cyfarfod stryd gwleidyddol gan ladd chwech a niweidio sawl un arall.

Yn un o'r erthyglau lu a ysgrifennwyd amdani yn dilyn y digwyddiad erchyll a frawychodd America, disgrifiwyd Gabrielle Giffords fel 'Gwlad-garwraig Werdd.'

Yn ei haraith gyntaf yn y Gyngres, galwodd Cynrychiolydd Giffords ar Lywodraeth America i dynnu cymorth treth yn ôl o'r diwydiant olew difrodol, a chynorthwyo'r diwydiant ynni adnewyddol yn lle hynny.

Profodd yn ymgyrchwraig gref o blaid ynni adnewyddol fel modd i ffrwyno allyriadau $CO_2$. Pleidleisiodd o blaid creu system 'capio a masnachu' carbon er mwyn hybu diwydiannau glân. Fe'i beirniadwyd am hynny gan wrthwynebwyr asgell dde.

Galwodd, hefyd, am $2 biliwn o gymorth i ymchwil i ynni haul; cefnogodd fesurau i ehangu ynni o'r haul yn Arizona; a threfnodd fod ei swyddfa'n cynnal seminarau i addysgu pobl am fanteision ynni haul yn lle ynni carbon niweidiol fel glo ac olew.

Yn bersonol, mae hi a'i gŵr – yr astronaut Mark Kelly – wedi rhoi arweiniad yn ei thalaith enedigol trwy osod paneli ynni haul 2kw ar eu cartref fel arwydd o'u hymroddiad i ynni adnewyddol. ◻

## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ……………………………………………………………..

CYFEIRIAD: ……………………………………………………..

………………………………………… Côd Post……………….

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ………………..
(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

**EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD**

**TARGEDI CYMRU YN Y RHUTHR GWYLLT AM YNNI ...**

# Gŵyr glo Appalachia'n camu i Gwm Nedd

**MAE pryniant cwmni glo Canadaidd Western Coal am £3.3 biliwn gan gwmni Walter Energy o Alabama yn golygu bod Glofa Aberpergwm, Cwm Nedd, bellach o dan reolaeth un o brif gynhyrchwyr maes glo Appalachia yn yr Unol Daleithiau.**

Edrychir arno fel ymateb posib i alwad gynyddol Tsieina am lo gan fod Walter Energy yn rhan o'r fasnach lo fyd-eang.

Daw'r newid perchnogaeth wedi i bwyllgor cynllunio Cyngor Castell-nedd Port Talbot roi caniatâd i ehangiad sylweddol yn y

## BUDDSODDWYR YN YMATEB I ALWAD TSIEINA AM LO — ABERPERGWM YN RHAN O'R STRATEGAETH?

**ADRODDIAD Y PAPUR GWYRDD**

cyfleusterau ar ben y pwll.

Dim ond ym mis Awst 2010 roedd Western Coal wedi cymryd meddiant llawn o lofa a safle glo brig y cwmni blaenorol Cymreig, Energybuild. Yn dilyn hynny, gwelodd buddsoddwyr rhyngwladol botensial asiad mawr pellach yn wyneb cynnydd y diwydiant glo ledled y byd.

Dywed arbenigwyr bod pryniant ac uno cwmnïau glo ar gynnydd wrth i alwadau gan gynhyrchwyr dur Tsieina godi pris deunyddiau crai fel glo.

Walter Energy yw prif gynhyrchydd ac allforiwr glo caled yr Unol Daleithiau ar gyfer y diwydiant dur byd eang. Gwelir alwad Tsieina'n arwyddocaol iawn, felly.

Ar hyn o bryd, mae Aberpergwm yn bwydo glo i bwerdy Aberddawan — ffynhonnell allyriadau mwyaf Cymru — a hefyd glo cartref i'r cyfandir. Y bwriad yw codi'r cynnyrch yno, at gymaint â 1.5 miliwn tunnell y flwyddyn erbyn 2013.

► *Mae hyn i gyd yn digwydd heb fod unrhyw ffrwyn eto ar allyriadau $CO_2$ gan bwerdai glo. Dyma'r nwy sy'n ddinistriol i gyd-bwysedd ecosystemau'r Ddaear sy'n cynnal dynoliaeth a byd natur.*

## COST YR YNNI

**■ Yn Appalachia, 29 dyn yn marw mewn ffrwydrad pwll glo (Ebrill 2010)**

**■ Yn Seland Newydd, 29 glowr arall yn marw mewn ffrwydrad (Tachwedd 2010)**

**■ Yng Nghymru, cwynion (a rheiny heb sail) bod tyrbinau gwynt yn lladd ehedyddion**

# Colli arwres y frwydr yn erbyn difrod y glo

**TRIST gennym nodi marwolaeth Judy Bonds, un o ymgyrchwyr lleol mwyaf llafar ac ymroddedig y frwydr yn erbyn difrod y corfforaethau glo ym mynyddoedd Appalachia yn yr Unol Daleithiau.**

Bu farw Judy, oedd yn 58 oed, o gancr ym mis Ionawr. Roedd 'Llais y Mynyddoedd' yn arwres yn ei bro ei hun — er yn destun gwawd a chasineb i daeogion cwmnïau fel Massey Energy. Mae hi, hefyd, yn cael ei hystyried yn arwres yn y frwydr i warchod y Ddaear gyfan.

Magwyd Judy ym Marfolk Hollow yng Ngorllewin Virginia ble roedd ei thad yn löwr. Bu farw yntau o pneumoconiosis.

Dulliau cynyddol difrodol a pheryglus y cwmnïau glo wnaeth ymgyrchydd o Judy, yn arbennig *mountain top removal* sydd wedi chwalu 400 o fynyddoedd hardd. Hefyd eu harfer o lenwi dyffrynnoedd a gwastraff gwenwynig gan halogi nentydd a rhyddhau llwch brwnt i'r awyr.

Gweithiwr siop oedd Judy pan ddaeth yn wirfoddolwraig fywiog a dewr yn yr ymgyrch i fynnu bod cwmnïau mawr yn parchu iechyd pobl ac amgylchedd. Yna fe'i penodwyd i arwain *Coal River Mountain Watch* ar dal o $12,000 y flwyddyn. Enillodd Gwobr Amgylcheddol Goldman am ei dycnwch heriol yn y frwydr.



**JUDY BONDS**

Meddai Judy am gymoedd Appalachia, "Trefedigaeth ydym yma, a'r cwmnïau glo sy'n rheoli. Gallwn gwyno faint fynnwn ni, ond mae'r cwynion yn cael eu hysgubo o'r neilltu yn enw 'cynnydd' a 'swyddi' ... Os mae glo mor dda i ninnau'r *hillbillies*," meddai, "pam ydyn ni mor dlawd?"

Wrth brotestio ar Capitol Hill yn Washington y llynedd, meddai, "Mae Glo Glan yn jôc frwnt! Mae glo yn ein lladd ni i gyd, ac yn lladd rheiny sydd heb eu geni ... Mynnwn ynni adnewyddol nawr!"

## Twf Cyfeillion y Ddaear Cymru

**LLONGYFARCHIADAU i Gyfeillion y Ddaear Cymru! ...**

**Yn ystod blwyddyn anodd 2010 — pan oedd y Gwadwyr Cynhesu Byd-eang a Diwydiannau Dinistrio'r Byd ar eu mwyaf rhemp — Cymru oedd unig 'ranbarth' y mudiad i brofi a chroesawu cynnydd aelodaeth.**

# BP I DYLLU YN YR ARCTIG

**SYFRDANWYD y byd 'Gwyrdd' rhyngwladol wrth i Lywodraeth Glymblaid San Steffan groesawu cytundeb BP a chwmni Rwsiaid i ddechrau tyllu am olew yn yr Arctig.**

Condemniwyd BP eisoes yn ffyrnig yn yr Unol Daleithiau am y prosiect achosodd drychineb amgylcheddol yng Ngwlff Mecsico. Fe'i cyhuddwyd o fethiannau diogelwch esgeulus o dan amodau oedd yn hynod beryglus yn dechnegol.

Ond roedd y LibDem Chris Huhne, Gweinidog Ynni Llundain, yn falch i fod yn bresennol wrth i benaethiaid BP a chwmni Rwsiaid Rosneft gyhoeddu'u eu prosiect newydd i dyllu yn yr Arctig.

Er ymrwymiad blaenorol y LibDems i les y Ddaear, croesawodd Mr Huhne y datblygiad fydd yn bygwth un o'r ardaloedd anghysbell mwyaf pwysig i ecosystemau'r Ddaear. Gan ddatgelu cefnogaeth ei Lywodraeth i gorfforaethau sy'n rhoi elw'n gyntaf, meddai, "Mae BP yn dod allan o gyfnod anodd yn ei hanes ond mae'r bartneriaeth hon yn dangos yn glir bod BP ar agor i fusnes."

Disgrifiwyd BP fel "Prif ddihiryn amgylcheddol y byd" gan Gyfeillion y Ddaear.

Meddai Mike Childs o'r mudiad, "Dylai'r Arctig fod yn 'Ardal Dim Mynediad' i gloddwyr ynni ffosil gan mai dyma un o'r cynefinoedd mwyaf pur sydd ar ôl gennym."

## Rhybudd Pete

*"We - that is humanity - only have a couple of years left to act if we are to stop catastrophic climate change causing the deaths of hundreds of millions of people".*

Pete Postlethwaite *('Why We Have All Got To Stop Being Stupid', The Sun)*
Actor o fri.
Carwr y Ddaear.
Seren ffilm ysgytwol *The Age of Stupid*.

**Er Cof 1946-2011**

GOLYGYDDOL **HYWEL DAVIES**



# Croesawu'r fasnach lo fyd-eang i Gymru? — Ail-adrodd hanes y distryw-wyr Hengist a Horsa

**MAE cloch rybudd yn seinio i ni yng Nghymru wrth i gorfforaeth Walter Energy o Alabama ddod yn berchnogion ar lofa a safle glo brig Aberpergwm. Brasgamodd y cwmni i Gwm Nedd gwyrddlas hyfryd wrth iddynt dalu $3.3 biliwn i brynu'r cyn-berchnogion, Western Coal o Ganada, oedd ei hunan wedi cymryd at yr awenau o'r cwmni Cymreig Energybuild ond yn ddiweddar.**

Mae Walter Energy a'u buddsoddwyr rhyngwladol yma gan eu bod yn fyw i'r cyfle mae galwad Tsieina farus am nwyddau crai, gan gynnwys glo, yn ei olygu o ran llwyddiant masnachol.

Cloch y Ddaear yw'r gloch sy'n canu. Cloch ydyw sy'n rhybuddio y bydd elw a thwf yn golygu distryw os nad ydynt yn seiliedig ar barch i'r systemau naturiol sy'n cynnal gwragedd a dynion a phlant ar



ein hunig gartref planedol.

Wrth gynorthwyo'r diwydiant glo i ail godi yng Nghymru, rydym yn gweithredu fel Gwrtheyrn yn gwahodd Hengist a Horsa i'n gwlad. Yn ôl yr hanes, credai Gwrtheyrn y gallai reoli'r milwyr cyflog tramor i drechu ei elynion cartrefol. Ond daethant i oresgyn y cyfan a chwalu Prydain Geltaidd.

Ein camsyniad mawr tebyg yn awr yw credu ein bod yn gallu rheoli'r diwydiant glo rhyngwladol i wasanaethu Cymru. Rydym wedi clywed llawer o'r dadleuon mai dod â swyddi i'r bobl ifainc wnaiff y glofeydd newydd, ac y bydd cynhyrchu mwy o lo Cymreig yn golygu llai o lo estron yn cael eu mewnforio i bwerdy Aberddawan. Oes, mae yna ddyrnaid o brentisiaid. Ond mae'r cwmnïau mawr hyn ar hast — Walter Energy yn Aberpergwm ac Unity plc ar draws y cwm yng Nghwmgwrach. Twf cyflym sydd ei angen arnynt, a does dim digon o lowyr ar ôl yng Nghymru i sicrhau hynny. Dim syndod o gwbl, felly, bod glowyr o Wlad Pwyl bellach yng nglofa Unity, cwmni arall sydd ym meddiant arian rhyngwladol. A dyna'r bobl leol yn ffromi eu bod wedi cael eu camarwain. Nid creu economi Gymreig yw hyn, ond bwydo'r fasnach fyd-eang a'r corfforaethau cyfoethog.

Dyna'r ddadl wedyn mai caniatáu glo newydd ydyn ni er mwyn disodli'r glo sy'n cael ei fewnforio i Bwerdy Aberddawan, gan — a dyma ddadl glyfar — leihau allyriadau carbon. Gwneud sbort am honiad o'r fath fydd swyddogion a chyfreithwyr y corfforaethau pwerus hyn. Caiff ei chwythu i ebargofiant fel llwch y glo. Masnach fyd-eang sydd ganddynt, ac mae Tsieina'n galw. Dyna realiti'r sefyllfa. Yr hyn a welwn ganddynt fydd twf enfawr a chyflym i fwydo'r fasnach dramor — os na fydd gan ddaeareg ambell i sioc iddynt.

Ond mae cloch y Ddaear yn canu. Canu am y carbon y mae, y carbon sy'n cynhesu'r Ddaear ac yn hybu newid hinsawdd. Ond, meddech chi, beth am CCS sydd i ddal y $CO_2$ wrth losgi'r glo? Beth amdani yn wir? Aeth y diwydiant glo'n dawel ar y pwnc. Oes, mae arian cyhoeddus enfawr yn cynnal prosiectau ymchwil, gan gynnwys un o Brifysgol Caerdydd sydd i chwistrellu $CO_2$ dan Abertawe a Wrecsam i weld a all y nwy aros yno'n ddiogel. Ond, hyd yn hyn, does dim un pwerdy glo yn defnyddio CCS ar raddfa fasnachol. Ac mae'r diwydiant glo bellach yn siŵr nad oes angen iddynt gyfeirio ato, gan fod y Gwadwyr Newid Hinsawdd wedi siglo hyder y cyhoedd yn rhybuddion y gwyddonwyr.

Peidiwn ag amau hyn: cyfrannu at yr allyriadau carbon sy'n bygwth dynoliaeth a byd natur y Ddaear wnaiff diwydiant glo'r corfforaethau rhyngwladol yng Nghymru.

Mewn erthygl ar bwnc yr allyriadau carbon, sylwodd y **New York Times** ar gyd-ddigwyddiad arwyddocaol fis Rhagfyr diwethaf. Cyfeirio oeddynt at barhad gwaith y diweddar Dr David Charles Keeling, y gwyddonydd ddatgelodd cynnydd y carbon trwy fesuriadau manwl o'r awyr 'glan' a ddechreuodd ym 1957 ar un o ynysoedd Hawaii. Pan gychwynnodd ei waith arloesol, 280 darn y filiwn oedd o garbon yn yr awyr, sef mwy neu lai'r lefel ar ddechrau'r Chwyldro Diwydiannol. Roedd hi wedi bod felly am filoedd lawer o flynyddoedd, sef cyfnod llewyrch dynoliaeth. Ar Ragfyr 11, roedd Cynhadledd Newid Hinsawdd Cancun wedi gorffen — gyda'r gwledydd wedi methu eto â chytuno i ymrwymo'i gilydd at dargedi allyriadau pendant. Dyma nododd gohebydd y **New York Times**: "Yn hwyr y nos, wrth i'r cynrychiolwyr ddod a phethau i ben ym Mecsico, mynegodd y peiriannau ar ben y llosgfynydd yng nghanol y Môr Tawel eu dedfryd ddistaw eu hunain ar ymdrechion y byd. Am hanner nos amser Mauna Loa, trawodd y lefel carbon deuocsid 390 — gan barhau i godi." *[NYT, Rhagfyr 22, 2010].*

Pennaeth y sefydliad mesur yn Hawaii erbyn hyn yw Dr Ralph



Keeling, mab y sylfaenydd a fu farw yn 2006. Fel cymaint o sefydliadau gwyddonol sylweddol y byd, mae yntau'n bryderus iawn ynghylch cynnydd cyflym y carbon. Dyma sut y mynegodd hynny i'r **New York Times**: "Pan af i weld pethau gyda'm plant, rwy'n eu cael i ddeall efallai na fyddant i'w gweld pan fyddan nhw'n hŷn. 'Cerwch i fwynhau'r coedwigoedd prydferth hyn cyn iddynt ddiflannu. Cerwch i fwynhau'r rhewlifoedd yn ein parciau achos fyddan nhw ddim yma.' Yn sylfaenol, nodi'r hyn sydd gennym ydyw, ei werthfawrogi, a dweud ffarwel."

Mae cloch y Ddaear yn canu, yng Nghymru fel ym mhob gwlad. Mae pobl gyfrifol a rhesymol yn gwrando arni ac yn gwneud eu gorau i ymateb.

# Daeth 'Dydd y Farn' i lawer eisoes

**MAE Gwadwyr Newid Hinsawdd yn gwneud hwyl am ben pawb sy'n rhybuddio am fygythiad Cynhesu Byd-eang. Gau broffwydi 'Dydd y Farn' a 'Chataclysm' na fydd byth yn digwydd ydynt, medden nhw, o ddiogelwch eu cartrefi clyd.**

Rhaid atgoffa'r Gwadwyr y daeth Dydd y Farn a Chataclysm eisoes i gannoedd o bobl ledled y byd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Oni wnaethant sylwi ar ddistryw y gyfres o lifogydd enbyd? Y cyngor gan wyddonydd mor adnabyddus â Syr John Houghton yw bod y digwyddiadau hyn yn gyson ag ofnau gwaethaf rhagolygon Newid Hinsawdd.

Faint mwy o brawf sydd ei angen ar y Gwatwarwyr anghyfrifol? Maent yn euog o achosi oedi difrifol yn ein hymateb i broblem fwyaf yr oes. ☐

*<u>WRTH FYND I'R WASG</u>: NASA'n cytuno â NOAA (tud.9) — 2010 oedd y flwyddyn gydradd boethaf gyda 2005. Swyddfa Met DG yn dweud yr 2ail, i 1998.*

Ewch at y Wê-Borth
Gymraeg i'r Mudiad
Ecolegol Byd-eang

GWEFAN Y PAPUR GWYRDD

www.ypapurgwyrdd.com

Cymru a'r Ddaear * Gwyddoniaeth
Ymgyrch Cymru * Cysylltiadau

**YR AWDUR SARA ASHTON YN ESBONIO'R SYNIADAU SY'N SAIL I'W NOFEL 'MARI WYN' AM GYMRU HUNLLEFUS 2029 ...**

# Hen bryd i ni ddeffro os am warchod cynefin a byd

**MAE'R ffordd yr ydyn ni'n byw yn y Gorllewin a'r effaith mae hynny'n cael ar bobl ledled y byd, ac yn wir ar ddyfodol ni'n hunain, ar fy meddwl yn gyson.**

Dim jest o ran newid yn yr hinsawdd, ac adnoddau'n prinhau, ond o ran ein perthynas â ni'n hunain ac â'n cyd-ddyn, a'r ffordd caiff hynny ei amlygu yn ein cymunedau, ein cymdeithas a'n diwylliant.

Nid oes angen imi, mae'n siŵr, sôn rhyw lawer i ddarllenwyr **Y Papur Gwyrdd** am effaith ein bywydau gwastraffus ar yr hinsawdd a'r amgylchedd sy'n ein darparu a'r adnoddau yr ydym eu hangen i fyw. Dwi am felly ffocysu ar rywbeth sy'n anoddach o lawer i 'roi bys arno' — sef y perthynas rhwng ein cynefin, ein hunain, ein cyd-ddyn, a'r systemau 'rydym wedi eu datblygu i roi trefn ar ein bywydau.

Yn yr oes mae Mari'n byw ynddo mae yna gwmni mawr yn rheoli pob agwedd o fywyd. Mae'r olew'n brin felly maent yn herwgipio pobloedd y byd a'u troi'n gaethweision ynni i gyflenwi cilfachau cyfoethog y byd â thrydan, tra mae pobl gyffredin, y rhai nad ydynt wedi cael eu herwgipio eto, yn byw dan ofn ac mewn tlodi.


Wedi i Mari ddod i ddeall hyn mae'n gofyn i'w thaid, "Pam bod pobl yn gadael iddyn nhw neud y fath beth? Sut maen nhw 'di cal getawê hefo hyn?"

Ateb Taid ydy, "Oherwydd ein bod ni'n farus. Roeddan ni'n mynnu cael yr holl bethau roedd eu holew nhw'n ei roi inni — pethau nad oeddan ni wir eu hangen, jest ein bod ni'n meddwl eu bod nhw'n gneud inni deimlo'n well. A doeddan ni ddim yn meddwl dwywaith am y petha roeddan ni'n eu dinistrio i sicrhau ein ffics — ein cynefin ffrwythlon, ein hiaith, ein diwylliant, ein cymunedau, ein hawliau a'n rhyddid. Naethon ni ddewis ffeirio'n rhyddid am foethusrwydd. Roeddan ni'n gaethweision iddyn nhw 'mhell cyn iddyn nhw ddechrau herwgipio ni. A rŵan, fel y gweli di 'dan ni'n rhy wan i wneud fawr ddim. Dyna sut maen nhw 'di cael getawê."

***'Paid byth ag anobeithio! O'r holl rymoedd sydd yn gwneud gwell byd, does 'na'r un mor anhepgorol, yr un mor rymus â gobaith.'***

**Dyna eiriau Taid i Mari ar fore gwlyb yn y Blaenau. Roedd ei gyngor yn ddefnyddiol iawn yn 2029 a bywyd yn galetach o lawer nag ydi o heddiw. Hanes hogan fach yn dod i ddeall y byd a'i bethau yw hon. Ond mae taith Mari Wyn yn cynrychioli llawer mwy na hynny hefyd. Wrth gymryd cip ar ddyfodol posib, cawn archwilio'r modd rydyn ni'n dewis byw ein bywydau heddiw, a gofyn a yw'r dewisiadau a wnawn ni yn rhai doeth ...**

***O'r cyflwyniad i 'Mari Wyn', nofel gan Sara Ashton.***




Dyna wela' i yn y byd heddiw. Ein bod ni'n gwneud yn union hynny. Rydan ni'n ffeirio'n rhyddid i benderfynu ar ein dyfodol am foethusrwydd. Nid yn unig o ran yr economi ac arweinyddiaeth wleidyddol, ond hefyd o ran ein bywydau emosiynol, ac ysbrydol. Dydan ni ddim yn teimlo llawn effeithiau hyn eto: yn gyffredinol, pobl y 'trydydd byd' sy'n dioddef ar ein rhan ni. Ond cyn bo hir, tybiwn i, byddwn ni'n gorfod dechrau ymdopi â chanlyniadau ein camgymeriadau. Wedi'r cwbl, sut mae system economaidd sy'n seiliedig ar dyfiant yn mynd i dyfu wedi iddi gam-fanteisio ar bawb a phopeth yn y 'trydydd byd'.

Meddyliwch am eiliad. A ydych chi'n teimlo fod gennych chi ddigon o reolaeth dros eich tynged? Wrth gwrs, does gan neb rheolaeth absoliwt dros eu tynged. Ond a ydach chi'n hapus, os ydach chi'n wirioneddol meddwl amdano, gyda'r lefel o reolaeth sydd gennych chi dros yr hyn sy'n rhoi trefn ar eich bywyd chi, a'r hyn sy'n penderfynu eich dyfodol chi a dyfodol eich plant?

Yn y nofel mae Mari'n 'deffro' mewn sawl ffordd. Mae'n deffro i'r gwirionedd sydd o'i hamgylch. Hynny yw, mae'n dod i ddeall y gymdeithas ehangach mae'n rhan ohoni. Mae'n deffro'n emosiynol, sy'n ei darparu â moesoldeb sy'n ei sbarduno i eisiau gwneud rhywbeth am sefyllfa ddifrifol ei chymuned a'r byd yn gyffredinol. Ac mae'n deffro'n ysbrydol. Mae hyn yn rhoi'r nerth iddi gyflawni'r hyn sy'n ofynnol ohoni.

Yn ystod y deffroad yma, mae'n sylweddoli bod ei chynefin a'i chymuned yn rhan annatodol ohoni a'i bod hithau hefyd yn rhan annatodol o hwythau. Y rhain sy'n cael eu bygwth gan y gyfundrefn. A'r posibilrwydd o golli'r rhain sy'n ei sbarduno i weithredu, i afael yn y llyw a pheidio gadael i systemau a oedd i'w gweld y tu hwnt i'w rheolaeth penderfynu ei thynged.

Dwi'n credu y buasai pob un ohonom yn cael budd o fynd ar daith

PARHAD AR DUDALEN 6



**YR AWDUR**

**Sara Ashton yw Cydlynydd Prosiect Y Dref Werdd sy'n rhan o Gymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw ym Mlaenau Ffestiniog. Nod Prosiect y Dref Werdd yw creu fframwaith strategol fydd yn galluogi pobl Bro Ffestiniog i ddefnyddio'u hamgylchedd leol a'r amgylchedd yn gyffredinol fel adnodd i greu swyddi, ennyn hyder, gwella iechyd a chryfhau'r gymuned.**

*MARI WYN: PARHAD O DUD. 5*

# Angen ystyried ein dyfodol ar frys — a gweithredu

debyg i un Mari. Mae'r ymdrech i greu gwell byd yn llawer mwy nag arbed ynni yn y cartref neu ailgylchu (er mae'r rhain yn bethau hynod bwysig i'w gwneud).

Mae'n golygu deffro i'r angen i ymgymryd i lywio dyfodol gwell i ni'n hunain; i beidio eistedd yn ôl a gadael i systemau diffygiol benderfynu ein ffawd; i greu systemau synhwyrol newydd sy'n anelu at ddyfodol iach a hapus; i weithredu dros hynny sy'n rhan ohonom ni, fel yr ydan ni'n rhan ohonynt hwythau – sef ein cymuned a'n cynefin; i gredu bod gennym ni'r gallu i wneud hyn.

Dydy hyn ddim yn beth hawdd i ymdopi â fo. Ac os am lwyddo bydd yn rhaid i ni ddefnyddio pob adnodd sydd ar gael inni – gan gynnwys ein grym mewnol, ein hagweddau emosiynol ac ysbrydol, yn ogystal, wrth gwrs, a'n gallu meddyliol a ffisegol. Mae'n bwysig inni, felly, ddefnyddio'r adnoddau hyn bob dydd, i'w datblygu, fel ein bod ni yn y cyflwr gorau ar gyfer ein taith.

Byddwn i byth yn ceisio hawlio fy mod i'n gwybod yn union sut i greu'r fath dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth mae rhaid inni gyd benderfynu gyda'n gilydd.

Ond mae yna un peth rwy'n siŵr ohono, sef hyn: Os ydan ni am gychwyn ar daith felly (fel cymdeithas gyfan — dydw i ddim yn gwadu fod rhai eisoes ar y daith) mae rhaid inni ofyn y cwestiynau iawn rŵan.

Un ffordd o wneud hynny yw edrych ar ddyfodol posib a gofyn a yw'r ffordd rydan ni'n byw ein bywydau heddiw yn debygol o arwain at ddyfodol o'r fath? Ac os hynny, a ydan ni eisiau dyfodol felly? Ac os na, beth ydan ni am ei wneud i'w osgoi.

Dyna, yn y bôn, roeddwn i'n ceisio ei wneud trwy fynd ati i ysgrifennu *Mari Wyn*. Dwi'n gobeithio fy mod i wedi llwyddo. Amser a ddengys! ☐

► **Mae *Mari Wyn* gan Sara Ashton ar gael yn eich siop lyfrau leol, neu, i'r rhai nad ydynt yn agos at siop lyfrau Cymraeg, dros y wê. Mae'r nofel yn rhan o Gyfres y Dderwen a gyhoeddir gan Y Lolfa.**



# ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

## Pigion amrywiol 2 fis

### PROSIECT YNNI HAUL

YN Sir Gaerfyrddin, mae cwmni Entec UK Ltd wedi gofyn am ganiatâd cynllunio i greu safle ynni o'r haul. Byddai'r prosiect yn codi digon o baneli haul i allu cynhyrchu 3MW o drydan ar hen safle pwll glo Cynheidre, yng Nghwm Gwendraeth, ger Cwrs Rasio newydd Ffos Las. Ni fyddai allyriadau $CO_2$, na swn cynhyrchu, na phroblemau gweledol, medd y cwmni.

### HEDDLU CUDD

RHYDDHAWYD chwe aelod o fudiad ecolegol gan lys yn Lloegr ar ôl clywed bod aelodau o'r heddlu cudd wedi bod yn chwarae rhan flaenllaw yn eu gweithgarwch ers saith mlynedd. Roedd yr achos yn ymwneud â chynllun posib i gynnal protest posib yn erbyn allyriadau $CO_2$ difrodol pwerdy glo Ratcliffe-on-Soar. Ar 'Newsnight' mynnodd cyn-heddwas cudd bod sawl swyddog arall ynghudd yn y mudiadau amgylcheddol.

### ARIANNU GLO

MAE mudiadau fel Cyfeillion y Ddaear, 350.org, y Sierra Club a Ground Work wedi uno i ymgyrchu yn erbyn bwriad Llywodraeth yr Unol Daleithiau i ariannu pwerdy glo enfawr 4,800MW yn Ne Affrica — yr ail yno i'r cwmni glo gwladwriaethol, Eskom. Mae'r cwmni eisoes wedi cael dros $3 biliwn gan Fanc y Byd i godi'r pwerdy hwnnw.

### CRONFA DŴR BRASIL

ER deiseb ryngwladol yn ei wrthwynebu, ofnir bod gwaith adeiladu ar fin cychwyn ar gronfa ddŵr anferth Belo Monte yn Brasil. Credir bod Indiaid brodorol yn byw yng nghoedwigoedd yr ardal nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad â phobl wyn. Mae Adran Pobloedd Brodorol Brasil newydd gytuno i'r prosiect, ond mae llywydd yr asiantaeth amgylcheddol wedi ymddiswyddo oherwydd ei bryderon am y cynllun. Byddai'r gronfa ddŵr yn creu llyn anferth fyddai'n achosi difrod enfawr i'r fforestydd ac i bobloedd lleol.

**► Mae Avaaz yn deisebu yn erbyn y prosiect.**



<u>LLUN UCHOD</u>: ***Ond mae newyddion da o Brasil hefyd. Mae Mudiad Trefi Trawsnewid wedi cael ei sefydlu yno i baratoi am fyd heb olew ac ymateb i newid hinsawdd. Dyma rai o'r 85 o arweinwyr cymunedol gafodd hyfforddiant yno gan y mudiad yn ddiweddar.***

### LLOSGYDD MERTHYR

MAE Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ymgyrchu gyda phobl leol Merthyr Tudful yn erbyn cais cwmni Americanaidd Covanta i leoli Llosgydd Gwastraff enfawr i gynhyrchu trydan yn yr ardal. Gan fod y cynnig mor fawr, y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) annemocrataidd ac Anghymreig fydd yn penderfynu arno heb fawr o holi lleol. Dywed Cyfeillion y Ddaear nad yw llosgi'n opsiwn gwyrdd ar gyfer trin gwastraff, nac yn ddull effeithlon o gynhyrchu ynni. Byddai 750,000 tunnell o wastraff yn cael eu cludo i Losgydd Merthyr yn flynyddol, sef mwy na holl gynnyrch blynyddol Cymru.

### $CO_2$ YN GOLLWNG?

MAE teulu yn Saskatchewan, Canada, sydd â thir ffarm uwchben prosiect Dal a Chadw Carbon (CCS) mwya'r byd, yn honni bod nwyon tŷ gwydr yn dianc o'r pridd gan ladd cwningod a geifr ac achosi swigod fel pop wedi'i siglo yn y dŵr lleol. Dengys ymchwiliad bod lefelau uchel o $CO_2$ yn y pridd. Y bwriad oedd bod y nwyon tŷ gwydr yn cael eu gwthio i aros yn y ddaear yn barhaol. Mae fferm Cameron a Jane Kerr uwchben maes olew Weyburn lle mae 6,000 tunnell o $CO_2$ yn cael eu chwistrellu'n ddyddiol i haenau creigiog dan ddaear gan gwmni Cenovus er mwyn hwyluso codi olew ac 'ymladd yn erbyn newid hinsawdd.' Mae llefarydd y cwmni wedi datgan eu bod yn amau'r honiadau. Dywed Llywodraeth Saskatchewan y byddant yn astudio'r sefyllfa, ond nad ydynt yn bwriadu atal y broses ar hyn o bryd.

### PENTREF LAMMAS

MAE'R gwaith yn parhau o godi pentref 'effaith isel' ar Dir y Gafel, Glandŵr, Sir Benfro — sef pentref Lammas. Gobaith y pentrefwyr newydd yw y byddant wedi cwblhau eu Canolfan Gymuned erbyn mis Mawrth. Bydd y ganolfan yn lle cwrdd hwylus i deuluoedd Lammas yn ogystal â bod yn ganolfan addysg i ymwelwyr. Nod y pentref yw dangos sut y gallwn fyw mewn cytgord â'r Ddaear yn lle ei difrodi fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Fydd 'na ddim allyriadau $CO_2$ o'r pentref hwn!

## PLEIDLAIS 'IE' YN GANOLOG I WIREDDU DYHEADAU AMGYLCHEDDOL CYMRU

# Cancun — cytundeb i'w groesawu neu 'eco-lofruddiaeth'?




**Yn dathlu Cancun — Llywydd y Gynhadledd, Gweinidog Tramor Mecisco Patricia Espinosa, ac Ysgrifennydd Cyffredinol y Gynhadledd, Christiana Figueres.** ***LLUN: CU***

**RHODDWYD croeso "twym galon" gan Jane Davidson i gytundeb newid hinsawdd Cancun.**

Gallwn ddisgwyl rhyw faint o sbin gan wleidydd, ond mae llawer o bobl eraill yn teimlo rhyddhad bod trychineb fel Copenhagen wedi cael ei hosgoi.

Er i'r cyfryngau barhau i roi'r argraff bod gan wadwyr newid hinsawdd achos teilwng i'w ystyried, gwelodd Cancun lywodraethau'r byd yn cytuno —

- *"bod rhaid cael toriadau llym mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ôl gwyddoniaeth"*
- y dylai gwledydd *"weithredu ar frys"* i gadw'r cynnydd yn nhymheredd y byd o dan 2ºC
- ac y dylai gwledydd dderbyn cyfrifoldeb am eu hallyriadau mawr hanesyddol.

Gwrthododd cynrychiolydd Bolivia ymuno â'r dathliadau gan alw'r cytundeb yn "eco-lofruddiaeth" fyddai'n arwain at gynnydd o 4ºC mewn cynhesu byd eang. Gan na chytunwyd i ddim fyddai'n atal twf allyriadau, gyda'r penderfyniadau mwyaf pwysig yn cael eu gohirio tan yr uwch-gynhadledd nesaf yn Ne Affrica fis Rhagfyr nesaf, mae 'na gyfiawnhad dros ei ddicter. Gwlad dlawd yw Bolivia sydd yn rheng flaen newid hinsawdd.

Yn 2010, adroddodd y *Climate Vulnerability Monitor* bod 350,000 o farwolaethau wedi digwydd o ganlyniad i newidiadau hinsawdd, 90% ohonynt mewn gwledydd sy'n datblygu. Mae'r costau economaidd o $150,000 hefyd yn disgyn yn bennaf ar rheiny sydd lleiaf cyfrifol am allyriadau.



Gan
GORDON JAMES
Cyfeillion y Ddaear Cymru

Yn fuan wedi Cancun, cyhoeddodd Cyfeillion y Ddaear adroddiad, *Reckless Gamblers: How Politicians' Inaction is Ramping Up The Risk of Dangerous Climate Change*, sy'n dadlau bod angen toriadau allyriadau bellach fel nas gwelwyd erioed o'r blaen.

Mewn rhagair i'r adroddiad, dywedodd ymgynghorydd newid hinsawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Athro Kevin Anderson:

"Mae sicrhau hyd yn oed siawns fechan y cawn gwrdd ag ymrwymiadau'r Deyrnas Gyfunol, y Gymuned Ewropeaidd a'r byd yn gyfan i osgoi 'newid hinsawdd beryglus' yn galw am arweiniad gwleidyddol dewr ac agored."

Byddai llawer yn dadlau bod Llywodraeth Cymru yn dangos dewrder o'r math a'r arweiniad. Gosodwyd polisïau sy'n anelu at sicrhau toriadau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd o 3% y flwyddyn mewn sectorau o gyfrifoldebau datganoledig, i gynhyrchu'r cyfan o drydan Cymru o ffynonellau adnewyddol erbyn 2025, ac i ailgylchu 70% o wastraff erbyn yr un flwyddyn.

**Er bod hyn i gyd yn ganmoladwy, i raddau helaeth dyma'r rhan hawdd. Y gwir her fydd cyrraedd y targedau.**

Eisoes cafwyd siomedigaethau. Er bod cytundeb 'Cymru Un' wedi datgan y byddai'r toriadau o 3% mewn allyriadau yn digwydd mewn sectorau o gyfrifoldebau datganoledig, dengys y Strategaeth Newid Hinsawdd y bydd llai na thrydedd ran o hyn yn ganlyniad uniongyrchol i bolisïau Llywodraeth Cymru.

A bron cyn i'r inc sychu ar Ddatganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan ei bod yn gohirio pob datblygiad gyda llanw aber Afon Hafren, a oedd i fod i wneud cyfraniad arwyddocaol yng Nghymru, gan ffafrio, yn lle hynny, ynni niwclear na soniwyd amdano yn y polisi Cymreig.

**Mae pleidlais 'IE' yn Refferendwm Mawrth 3 i ddatganoli pwerau deddfu i Gymru yn angenrheidiol os ydym i wireddu'n huchelgais o dorri allyriadau er mwyn elwa o dwf cyflym yr economi gwyrdd.**

Dylai hefyd gael ei ystyried yn gam pwysig ymlaen tuag at ennill cyfrifoldeb am ein holl bolisiau ynni.

Eisoes mae Cymru wedi bwrw prentisiaeth rhy faith.

Mae angen dybryd arnom i ennill y pwerau fydd yn ein galluogi i wireddu'n gobeithion gwyrdd a dal ein pennau'n uchel yn y gynhadledd hinsawdd nesaf yn Ne Affrica ym mis Rhagfyr. ☐

## Rhyfel — gwenwyn sy'n difrodi gwledydd a'r Ddaear gyfan

**'DYW'R Ddaear bellach ddim yn gallu delio â dinistr rhyfel, yn enwedig ar y raddfa a chyda ffyrnigrwydd y gall ond gwlad gyfoethocaf a rymusaf y byd — na, mewn hanes — ei achosi.**


**Er i luoedd arfog yr Unol Daleithiau gyfeirio *Operation Iraqi Freedom* yn erbyn yr Iraciaid yn unig, doedd neb — nid un dinesydd mewn unrhyw ran o'r Ddaear — wedi dianc rhag yr effaith.**

**Wrth i ni gyhoeddi rhyfel ar wlad dramor, rydym bellach hefyd yn cyhoeddi rhyfel ar y Ddaear, ar y tir, y planhigion a'r anifeiliaid, y dŵr a'r gwynt a'r bobl, yn y ffyrdd mwyaf pellgyrhaeddol a heintus. Mae bom a ollyngir ar Irac yn ffrwydro o gwmpas y byd.**

**Does dim ffordd y gallwn atal yr effaith. Methiant llwyr yw technoleg yma. Mae rhyfel yn gwthio'i hun, fel genyn afreolaidd ac, heb ffrwyn, mae ganddo'r gallu i ddinistrio system gymhleth a bregus y Ddaear.'**

► *The Green Zone: The Environmental Costs of Militarism* gan Barry Sanders (AK Press, 2009)

## YN DDA I'R DDAEAR — OND DIM O BWYS I YRWYR GO IAWN?



**'Car petrol-trydan yw "ateb" Toyota i'r Efengyl Werdd a diwinyddiaeth 'Dydd y Farn' amgylcheddol. Yn wahanol i batrwm Honda (arloesodd y car croesryw), gall y Toyota deithio am rhyw filltir cyn i'r petrol danio ac adfer pethau […] 'does dim yma at ddant neb sydd a'r diddordeb lleiaf mewn gyrru car modur.'**

► *O golofn* ***Moduro*** *Huw Thomas yn* ***Y Cymro*** *(7 Ionawr) wrth iddo asesu'r Auris HSD Toyota*

***CYNHADLEDD NEWID HINSAWDD BANGOR: Y NEGES I BAWB ...***

# Cariad at ddynoliaeth yn mynnu ymateb

Gan
**ELENID JONES**
Cadeirydd Adran Dinasyddiaeth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Â HITHAU wedi bod yn un o'r gaeafau caletaf ers degawdau, roedd yn ddigon naturiol i bobl ddechrau cwestiynu'r honiad bod tymheredd y byd yn codi.**

Ond mewn gwirionedd, 'dyw'r ffaith y cawson ni lawer o eira yn ystod 2010 ddim yn croesddweud y ffaith bod y flwyddyn honno wedi bod yn gydradd gynhesaf i'r blaned yn ei chyfanrwydd ers i recordiau gychwyn ...

A dyna'r broblem. ... Byddwn ni'n barnu'r cyfan yn unig o'n profiad cul, lleol ni o'r tywydd yn ein gwlad ni. Efallai nad ydym ni yma yn gweld tymheredd uwch nag arfer ar hyn o bryd, ond mae gwledydd eraill ar draws y byd eisoes yn dioddef gwres ofnadwy o uchel.

Ar wahân i hynny, dylem gofio mai 'newid hinsawdd' yw'r broffwydoliaeth wyddonol, nid cynhesu byd-eang yn unig. Fe welwn hynny'n gyson gyda llawer mwy o'r hyn a elwir yn "*extreme conditions*".

Mae llawer mwy o stormydd gwynt eithafol o ddistrywgar, glawogydd didostur a'r llifogydd sy'n eu dilyn fel yn Pacistan ac Awstralia, heb sôn am y sychder cynyddol ar draws cyfandir Affrica. Mae'r sychder hwn yn effeithio ar filiynau o bobl, yn creu newyn ac yn gorfodi pobl i newid eu ffordd draddodiadol o fyw, ffordd a oedd yn llawer mwy caredig i'r amgylchedd na'n ffordd drefol, fodern ni gyda'n holl wastraff o adnoddau naturiol.

Mae ôl troed carbon Affricanwr cefn gwlad bron yn anweledig o'i gymharu â'n hôl troed carbon ni yn y gwledydd cyfoethog, ac eto dyma'r bobl sydd eisoes yn dioddef yn sgil y newid hinsawdd sydd wedi digwydd yn barod.

Dyw'r gwyddonwyr ddim yn honni eu bod yn gwybod y cyfan, ac mae hyn eto yn creu ansicrwydd gan wneud i bobl deimlo'n ddiymadferth. Mae Natur yn dal yn ddirgelwch a'i hymddygiad mor aml y tu hwnt i'n crebwyll ni. Does yr un person ar y Ddaear yn gallu rheoli'r llif gwynt (y *jet stream*) sydd wedi bod gymaint ymhellach i'r de nag arfer gan roi i ni'r tywydd Arctig.

Ond erbyn hyn mae yna ddigon o brawf bod yr holl allyriant i'r awyr dros y ddwy ganrif ddiwethaf yn bennaf gyfrifol am greu'r amodau sydd y tu cefn i lawer o'r digwyddiadau tywydd anarferol hyn.

Dyma rywbeth y gallwn ni fel pobl wneud rhywbeth yn ei gylch a dechrau newid ein ffordd wastrafflyd o fyw i atal pethau rhag mynd yn waeth.

Yn wir, fel aelodau mewn eglwysi Cristnogol, mae'n rheidrwydd arnom i wneud hyn os ydym yn credu bod cariad at gyd-ddyn a chonsyrn am y tlawd a'r gwan yn ganolog i neges Iesu i ni.

Dyma rai o'r pynciau a fydd yn cael eu trafod mewn cynhadledd ym mis Ebrill ym Mangor, cynhadledd a drefnir ar y cyd gan Adran Dinasyddiaeth Gristnogol Undeb yr Annibynwyr a Chymorth Cristnogol.

Bydd y gynhadledd yn agored i unrhyw un ei mynychu. Rydym yn estyn croeso i bob un o bob crefydd a heb grefydd i ymuno â ni i ddysgu mwy am y peryglon hinsawdd sy'n bygwth bywyd ar y blaned a'n cyfrifoldeb ni fel unigolion, fel eglwysi ac fel cymdeithas i ymateb yn ddoeth i'r argyfwng yma er mwyn ein plant a phlant ein plant. □

**► Gweler Daeariadur Y Papur Gwyrdd am drefniadau'r Gynhadledd, tud 10.**

---

**ADOLYGIAD**

# Tywysog yn galw am gytgord â'r Ddaear

**Gan CHARLOTTE DAVIES**

*Harmony: A New Way of Looking at Our World* (Blue Door, 2010)

ANRHEG Nadolig braidd yn annisgwyl y des o hyd iddo yn fy hosan oedd llyfr gan y Tywysog Siarl, Llwynywermod – annisgwyl gan nad ydym, fel teulu, wedi cymryd diddordeb mawr yn y teulu brenhinol. Ond, er yn annisgwyl, profodd y llyfr yn anrheg dderbyniol iawn.

Teitl y gyfrol hardd yw *Harmony: A New Way of Looking at Our World*. Cafodd ei ysgrifennu gan y Tywysog ar y cyd gyda Tony Juniper ac Ian Skelly, dau enw sylweddol yn y mudiad ecolegol.

Er ein diffyg brwdfrydedd ynglŷn â materion brenhinol — rhywbeth sydd wedi peri penbleth i ochr Americanaidd ein teulu — rydym wedi edmygu arweiniad a gweithredoedd amrywiol Tywysog Siarl dros ddegawdau wrth iddo amddiffyn yr amgylchedd.

Mae'r llyfr yn werth ei ddarllen, gyda'i brif thema – sef, byw mewn cytgord â Natur – ynghyd â llu o luniau prydferth yn clymu penodau amrywiol at ei gilydd. Mae'n cyflwyno argyfyngau presennol systemau naturiol ein Daear yn ddychrynllyd o effeithiol. Dengys sut mae adnoddau sylfaenol y blaned — pridd, dŵr, awyr — yn cael eu llygru a'u herydu wrth i ni anwybyddu a thanseilio'r cylchoedd naturiol sy'n eu gwarchod a'u hadnewyddu. Ar yr ochr bositif, mae'r Tywysog hefyd yn rhoi enghreifftiau o brosiectau a gweithgarwch ledled y byd gan bobl sy'n ceisio datblygu ffyrdd cynaliadwy o fyw mewn cytgord â systemau naturiol er mwyn osgoi niweidio'r Ddaear.

Ond prif thema'r llyfr, fel mae'r teitl yn awgrymu, yw'r angen i ni drawsnewid ein perthynas â'r Ddaear trwy newid ein ffordd o feddwl am Natur. Honnir ein bod erbyn hyn yn gweld Natur fel gwrthrych ar wahân i ninnau, ac felly'n rhywbeth i'w ddefnyddio er ein lles ein hunain.

Mae un bennod *(The Age of Disconnection*) yn olrhain twf y persbectif hwn gan ddechrau gyda Chwyldroad Gwyddonol yr 17eg ganrif pryd roedd Syr Francis Bacon yn cefnogi astudio Natur trwy ei thorri i lawr i ddarnau man i'w dadansoddi. Adeiladodd y Chwyldroad Diwydiannol ar hyn gan ychwanegu'n enfawr at ein defnydd o adnoddau'r ddaear. Yn olaf, dadleuir bod moderniaeth yr 20fed ganrif wedi'n hinswleiddio ni o bob cyswllt â'r byd naturiol. Adlewyrchir y diffyg perthynas hwn â natur trwy bensaernïaeth ein cyfnod, ein hadloniant, a hyd yn oed ein bwyd beunyddiol.

Serch hynny, dydy'r llyfr ddim yn wrth-wyddoniaeth. Awgrymir bod moderniaeth yn cael ei herio gan y wyddoniaeth ddiweddaraf, megis ffiseg cwantwm. Mae hyn yn ein cyfeirio ni nôl at ein dealltwriaeth gynharach o'r perthynas sydd rhwng popeth yn y byd — dealltwriaeth sydd i'w gael hyd heddiw ymhlith pobloedd brodorol — a hyd yn oed at agweddau ysbrydol.

Felly, mae'r Tywysog a'i dîm yn ein hannog ni i ddechrau newid y byd trwy newid ein hunain, yn arbennig trwy dderbyn ein bod yn rhan annatod o'r byd naturiol. Eu dadl yw bod ein bodolaeth yn llwyr ddibynnol ar iechyd y perthynas hwn. "Er mwyn adfer cydbwysedd y byd," medd criw *Harmony*, "rhaid dod o hyd i'r cydbwysedd ynom ni ein hunain." □

**FAINT MWY O BRAWF SYDD EI ANGEN BOD NEWID HINSAWDD YN MAGU NERTH ... ?**

► 2010 OEDD Y FLWYDDYN BOETHAF I'R BYD ERS I RECORDIAU GYCHWYN YM 1880 — YN GYDRADD Â 2005
► 2010 OEDD Y FLWYDDYN WLYPAF I'R BYD ERS I RECORDIAU GYCHWYN — GYDA STORMYDD I WAETHYGU

*Data Gwasanaeth Cefnforol ac Atmosfferig Cenedlaethol yr Unol Daleithiau (NOAA, 12 Ionawr, 2011)*

## *JILL EVANS ASE YN ARWAIN SENEDD EWROP V CEMEGAU ...*

# Ennill cytundeb i gyfyngu ar WENWYN ffonau , cliniaduron, ipods ...



**LLYWYDD PLAID CYMRU**
**JILL EVANS ASE**
**YN ESBONIO 'NITI-GRITI' EI HYMDRECHION I WNEUD EIN BYD YN LANACH FYD**

**TRA bod gwaith caled yn cael ei wneud ar draws Cymru ac Ewrop i leihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu, mae 'na un ffrwd sy'n dal i dyfu'n gyflym: gwastraff electroneg.**

Yn ein brys i berchen y teclyn diweddara', rydyn ni gyd yn euog o daflu i'r bin hen ffonau, gliniaduron, ac ipodau ar raddfa gynyddol.

Mae 9 miliwn tunnell o'r math yma o wastraff yn cael ei gynhyrchu yn Ewrop bob blwyddyn ar hyn o bryd, gyda disgwyl y bydd hyn yn tyfu i 12 miliwn tunnell erbyn 2020. Mae un cwmni yn y Rhondda yn unig, Waste Technique, yn prosesu tua 28,000 eitem electroneg y mis.

**Gwastraff y Gorllewin yn cael ei losgi yn Asia**

Yn amlwg, mae'n rhaid lleihau'r maint o wastraff sy'n cael ei daflu i ffwrdd yn y lle cyntaf ond mae rhaid gwneud yn siŵr, hefyd, y gellir ailgylchu'r offer. Nid yw llawer o'r gwastraff hyn yn cael ei ailgylchu gan fod cemegau ynddynt sy'n ei wneud yn amhosib. Yn ogystal, mae'r sylweddau sydd yn yr offer electroneg yn gallu bod yn beryglus i iechyd a'r amgylchedd os yw'r gwastraff yn cael ei losgi.

Beth a'm trawodd i fwyaf oedd bod llawer o'n gwastraff ni yn y Gorllewin yn cael ei allforio i wledydd fel Tsiena ac India ac yna'n cael ei losgi'n anghyfreithlon yno. Mae hyn yn rhyddhau diocsinau i'r aer, sy'n gallu creu problemau difrifol fel cancr ac anffrwythlondeb.

Felly, pan ofynnwyd i mi ddrafftio mewnbwn Senedd Ewrop i ddiweddaru'r gyfraith ar wastraff electroneg, roeddwn yn ymwybodol ei fod yn fater pwysig ac yn falch o gael y cyfle i geisio glanhau'r ffrwd wastraff yma.

Cychwynnais ar y gwaith yn 2008 ac rydw i'n falch o'r hyn sydd wedi ei gyflawni gan y Senedd yn y ddwy flwyddyn ddiwethaf. Pwrpas y ddeddfwriaeth yw rheoli pa gemegau sy'n cael eu caniatáu mewn offer electroneg. Mae'r gyfraith yn bodoli'n barod; dyma oedd y cyfle i weld a oedd yn gweithio ac i'w wella. Mae'r gyfraith bresennol yn bendant wedi bod yn ddylanwadol, gyda gweddill y byd yn dilyn Ewrop yn y maes.

Fy rhan i yn y broses ar ran Senedd Ewrop oedd drafftio gwelliannau i gynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar sut i wella'r gyfraith bresennol. Cafwyd pleidlais ar fy adroddiad i, ac ar welliannau amrywiol gan Aelodau Seneddol Ewropeaidd eraill, yn y Pwyllgor Amgylchedd ym Mrwsel.

Roedd canlyniad 'gwyrdd' iawn y bleidlais yn fy rhoi mewn sefyllfa gref ar gyfer rhan nesaf y broses, sef y trafodaethau gyda Chyngor y Gweinidogion: rhaid i'r Cyngor a'r Senedd gyfaddawdu er mwyn i gyfreithiau gael eu hawdurdodi. I ennill cytundeb, roedd rhaid i mi arwain cyfres o gyfarfodydd gyda Llysgennad Gwlad Belg oedd yn cynrychioli'r Gweinidogion. Roedd ysbryd da yn y cyfarfod ond roedd rhaid gweithio'n galed i ennill y ddadl.

Ni allaf ddweud fod yr hyn a lwyddon ni gyflawni yn y cyfaddawd terfynol yn adlewyrchu'n llwyr yr hyn yr oeddwn wedi gobeithio'i weld. Roeddwn wedi cynnig yn fy adroddiad cyntaf y dylid gwahardd cemegau ychwanegol rhag cael eu cynnwys mewn offer electroneg. Methais ag ennyn cefnogaeth i'r newid hwn ond cafwyd cytundeb i gyflwyno methodoleg glir i benderfynu pa gemegau fydd yn cael eu gwahardd yn y dyfodol. Mae hyn yn newyddion da gan y bydd yn gwneud yn glir, mewn ffordd wyddonol, pa gemegau sy'n beryglus.

**Datgelu pa gemegau sy'n beryglus**

Llwyddiant arall oedd gwneud yn glir pa offer sy'n cael eu cynnwys yn y ddeddf trwy ei wneud yn gymwysiadol ar gyfer pob offer electroneg. Mae hyn yn swnio'n ddigon syml, meddech chi. Ond dull y gyfraith bresennol oedd rhestru'r categorïau oedd yn gorfod dilyn y rheolau. Mae'r ffordd newydd yn gwneud yn glir i ddefnyddwyr a chynhyrchwyr beth yn union sy'n cael ei gynnwys neu beidio.

Mae gan Lywodraeth Cymru Un yr uchelgais o wneud Cymru'n wlad ddiwastraff. Ar hyn o bryd, ar gyfartaledd mae 71kg y person o wastraff yn cael ei gynhyrchu bob tri mis. Rydw i'n gobeithio pan fydd y gyfraith newydd hon ar wastraff electroneg yn dod i rym yn y blynyddoedd nesaf, y bydd yn cyfrannu tuag at fwriad ein Llywodraeth, trwy sicrhau y bydd mwy o offer yn cael ei ail-gylchu.

Mae cyfraith glir ac effeithiol wedi ei mabwysiadu. Mwynheais y profiad o fod yn rhan o fabwysiadu cyfraith newydd yn aruthrol, ac rydw i nawr yn edrych ymlaen at y sialens nesaf. ◻

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**



## Sgwrs gan Iolo

BYDD gwledd ar gael i naturiaethwyr ardal Abertawe ar nos Lun, Chwefror 7, wrth i'r seren deledu Iolo Williams gyflwyno sgwrs ar gampws Prifysgol Abertawe. Teitl y sgwrs fydd 'Bywyd Gwyllt Rhyfeddol Cymru' ac fe'i cynhelir yn Theatr Ddarlithio Grove, Adeilad Grove, gan ddechrau am 7.30yh. Tâl mynediad o £5 at gostau cynnal Ysbyty Adar Gŵyr.

## Cynhadledd y Ddaear, Bangor

BYDD Cynhadledd Newid Hinsawdd genedlaethol yn gwahodd arbenigwyr a'r cyhoedd i Fangor ar nos Wener a thrwy Ddydd Sadwrn, Ebrill 8 a 9. Trefnir y digwyddiad gan Adran Dinasyddiaeth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chymorth Cristnogol. Disgwylir nifer o siaradwyr, gweithdai, panel Hawl i Holi, a lluniaeth ysgafn. Y nod yw denu cymaint o bobl a phosib i ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf am Gynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd ac i drafod y math o ymatebion sydd eu hangen.

**► Am fanylion : http://www.annibynwyr.org neu ffoniwch Dŷ John Penri, 01792 795888.**

## Llandeilo

CYNHELIR Cyfarfod Blynyddol Mudiad Tref Trawsnewid Llandeilo yn Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin ar nos Lun, Chwefror 15, am 7 o'r gloch. Bydd y cyfarfod yn trafod sut i wella gweithgarwch y mudiad lleol er mwyn bod yn fwy effeithiol fel rhan o'r ymatebion i argyfyngau cynyddol brig olew a newid hinsawdd. Bwriedir trefnu cyfresi byr o sgyrsiau yn Llandeilo yn ystod y gwanwyn, gan gynnwys 'Sut i Wella Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau Hŷn' a 'Wynebu Argyfwng Cyfalafiaeth: Ymateb Cymunedol.'

## Bro Gwaun

MAE cryn dipyn o weithgarwch wythnosol gyda Thrawsnewid Bro Gwaun. Dyma ddwy ohonynt: **Grŵp Sgiliau Gwnïo a Chrefft**, Clwb Hwylio, Tref Isaf, Abergwaun, ar Chwefror 8, am 7yh, gyda Dot Jackson yn arwain (ffôn 01348 891283). **Grŵp Sgiliau Garddio**, Clwb Rygbi Abergwaun, Chwefror 10, am 7yh, gyda Julia Riddell yn arwain (ffôn 01348 872933).

## Ynni ffermydd

CAIFF ffermwyr Sir Gâr a Phenfro gyfle i glywed sut maen nhw'n gallu elwa o brosiectau ynni adnewyddol ar eu tiroedd mewn cyfarfod arbennig yn Arberth. Cynhelir y cyfarfod ar nos Fercher, Chwefror 9, yng Nghanolfan Gymunedol Bloomfield, am 7.45yh. Y siaradwr fydd Aled Roberts o gwmni ymgynghorol ADAS. Cyflwynir eglurhad ar drefnu prosiectau gwynt, haul neu hydro, ynghyd â'r enillion posib. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael.

## Llandrindod

BYDD Trawsnewid Llandrindod yn cynnal noson gymdeithasol yn y bar yng Ngwesty Monpellier yn Temple Street ar nos Lun, Chwefror 7, am 7.30. Croeso i bawb sydd ag 'agweddau gwyrddaidd'.

## Masnach Deg

BYDD gweithgareddau o bob math ledled Cymru wrth i Bythefnos Masnach Deg gael ei gynnal rhwng Chwefror 28 a Mawrth 11.

## Cwm Arian

MAE grŵp cymunedol ac ynni adnewyddol Cwm Arian yn ardal pentrefi'r Glog, Hermon a Llanfyrnach, Sir Benfro, wedi cychwyn cylchlythyr newydd sydd ar gael fel copi caled neu ar -lein. Canolfan y grŵp yw hen Ysgol Hermon sydd wedi cael ei haddasu ar gyfer pob math o weithgarwch. Ymhlith llu o ddigwyddiadau yno, mae Marchnad Gymunedol bob bore Sadwrn gydag amrywiaeth o grefftau a chynnyrch lleol ar gael.

**► Ffoniwch Pete ar 07854 061690 am fwy o wybodaeth neu ar lein www.cwmarian.org**

## Dathliad bach

MAE Grŵp Trawsnewid Bro Gwaun yn cynnal dathliad ar gyfer cynorthwywyr y mudiad. Cynhelir y noson yng Nghanolfan Gymunedol Dinas (sef yr hen ysgol) ar nos Wener, Chwefror 18, gan ddechrau am 7.30. Dyma gyfle i gymdeithasu a thrafod syniadau. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael. Siawns i godi tipyn ar ddiflastod y Mis Bach!

**► Manylion: Tom Latter ar 01348 872845**

**HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD**

**Am *Wybodaeth Gostau hysbysebu yn* *Y Papur Gwyrdd*, ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com, neu ffoniwch 01792 798162. Cysylltwch erbyn (tua) Mawrth 1af ar gyfer rhifyn Ebrill / Mai**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, eitemau newyddion a syniadau i'r** Papur Gwyrdd **— erbyn Dydd Gwyl Dewi os ar gyfer rhifyn Ebrill / Mai.**
**Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffôn: 01792 798162. Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX.**

## Beirdd y Byd

BYDD menter ynni adnewyddol cymunedol Awel Aman Tawe yn cynnal noson i wobrwyo enillwyr eu cystadleuaeth ar gyfer cerddi ecolegol ar nos Wener, Chwefror 25. Cynhelir y noson yng Nghanolfan Gelfyddydol Pontardawe gyda'r beirdd Gillian Clarke, Menna Elfyn a Susan Richardson yn bresennol.

**► Manylion: ehinshelwood@awelamantawe.co.uk neu ffonio 01639 830870**

## Gwyddoniaeth

BYDD Gŵyl Wyddoniaeth Bangor, sy'n rhan o'r Wythnos Wyddoniaeth a Pheirianneg Genedlaethol, yn cynnig gweithgareddau ar gyfer teuluoedd a grwpiau ysgol, oedolion sy'n chwilio am adloniant a thrafodaeth ysgogol, neu bobl broffesiynol sydd am wybod am yr ymchwil ddiweddaraf. Wedi'i threfnu gan Brifysgol Bangor, fe'i cynhelir mewn nifer o leoliadau o fis Mawrth 3 i Fawrth 20.

**► Manylion : b.s.f@bangor.ac.uk**

## Llanberis

OS oes diddordeb gyda chi mewn ffilmiau ac mewn mynyddoedd, Llanberis fydd y lle i chi ar benwythnos mis Mawrth 18 - 20. Dyna fydd penwythnos Gŵyl Ffilmiau Mynydd Llanberis fydd yn cynnwys ffilmiau, darlithoedd, ffotograffiaeth, llên a chelf i ymwneud â'r mynyddoedd.

**► Manylion: enquiries@llamff.co.uk**

## Llên a llysiau

BYDD gwybodaeth ddifyr ar gael ynglŷn â meddyginiaethau gwerin a llysiau meddyginiaethol mewn sgwrs yng Nghanolfan Hanes uwch Gwyrfai, Clynnog Fawr, Gwynedd, am 7yh ar nos Fawrth, Mawrth 30. Arweinir y noson gan Anne Elizabeth Williams a Bethan Wyn Jones.

**► Manylion E-bost: hanes@uwchgwyrfai.com**

# IEUENCTID LLANLLECHID YN CIPIO'R WOBR AUR 'WERDD'

**LLONGYFARCHIADAU i Ysgol Gynradd Llanllechid ar dderbyn Gwobr Aur Ysgol Werdd Gwynedd.**

Mae'r Grŵp Gwyrdd wedi bod yn arwain yr ysgol tuag at y wobr hon ac mae hyn wedi golygu mewnbwn holl ddisgyblion yr ysgol — o'r plant ieuengaf yn y dosbarth meithrin i'r plant hynaf ym mlwyddyn 6.


Mae sicrhau agweddau o ysgol werdd yn cael lle blaengar yn rhaglen flynyddol yr ysgol gyda phob disgybl yn weithredol. Mae'r plant ieuengaf wedi bod yn creu modelau trwy ail ddefnyddio gwastraff fuasai fel arfer yn cael ei daflu i'r amrywiol finiau ailgylchu sydd o amgylch yr ysgol.

Dywed Joseff o Flwyddyn 2: "Rydym ni wedi dysgu i ailddefnyddio'r sbwriel i greu teganau ac addurno ffens yr ysgol."

Mae disgyblion eraill yr ysgol wedi bod yn cynnal arolwg o'r sbwriel sydd ar hyd y llwybr cerdded lleol — Lôn Fach Odro. Yn ogystal, bu rhai yn garddio mewn prosiect Ysgol â'r Gymuned.

Dywed Guto o Flwyddyn 3: "Rydym wedi dysgu llawer am y llysiau a'r ffrwythau sy'n tyfu yma. Cawsom help gan Mr Saynor."





***Grŵp Ysgol Llanllechid gyda'r Wobr Aur — (de i chwith) Llio Owen, Owain Morgan, Morgan Davies, Martha Glain, Ioan Griff-iths, Evee Goodyear. DE: Alfie Blenkharn, Cai Wyn Jones a Lewis Blues yn profi melin wynt yng Nghanolfan Egni Adnewyddol Coleg Llandrillo***

Bu'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â Mr Ken Saynor a'i dîm o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a llwyddwyd i dyfu amrywiaeth o flodau a llysiau.

Cynhaliwyd diwrnodau gwyrdd ysgol gyfan gyda'r disgyblion yn gwisgo dillad gwyrdd a bu pob dosbarth yn dilyn trywyddion gwahanol agenda ysgol werdd yn ystod y dyddiau hyn gan gyflwyno eu gwaith i'r ysgol gyfan mewn cyfarfodydd arbennig. Aethpwyd ar deithiau addysgol i sawl man i gyfoethogi profiadau'r disgyblion drwy eu trwytho mewn gwahanol agweddau o'r gwaith.

Bu'r Grŵp Gwyrdd yn gwneud arolygiad o'r traffig sy'n cyrraedd tir yr ysgol a chasglwyd llawer o ddata oedd yn helpu`r disgyblion i lobio'r rhieni i feddwl am ddull amgen i gludo eu plant i'r ysgol. Yn sgil hyn, cynhaliwyd arolwg o ôl troed carbon y disgyblion wrth gynnal eu bywydau dyddiol ac fe ddarganfuwyd pa gar aelod o staff oedd yn cynhyrchu'r ôl troed carbon mwyaf!

Dywed Cadeirydd y Grŵp Gwyrdd Morgan Davies: "Rydw'i bellach yn cerdded ar hyd Lôn Fach Odro wrth ddod i'r ysgol er mwyn lleihau'r traffig sydd ar dir yr ysgol."

► ***Diolch i gymuned yr ysgol gyfan am sicrhau llwyddiant yr ysgol i gipio'r wobr hon.***

## PLANNU COED AFALAU WRTH FEDDWL AM Y DYFODOL

**DYDYN ni ddim yn rhai sy'n credu bod y Ddaear yn mynd i droi'n chwilfriw yfory (am y gwyddwn ni). Ond fel yr hen ddiwinydd Almeinig Martin Luther, rydym wedi plannu coed afalau fel yr awgrymodd ef y byddai'n wneud o feddwl am y posibilrwydd *(gweler Gol. YPG 21).***

Oherwydd yr eira a'r oerfel wrth iddynt gyrraedd atom, bu raid cadw'r ddwy goeden fach yn y sied yn yr ardd yn llochesu rhag y rhew. Dyna le buont am dair wythnos, gyda ninnau'n cadw'u gwreiddiau'n wlyb yn ofalus, cyn cafwyd cyfle i'w plannu. A dyna'r Cox's Orange Pippins bach, bellach, yn ddiogel yn erbyn ffens newydd sbon. Pan ddaw'r Gwanwyn a'r Haf, ein bwriad yw eu hyfforddi i dyfu fel coed *espalier* disgybledig, ffrwythlon.

Beth wnawn ni o glywed y gallai'r Ddaear droi'n chwilfriw yfory? Dim mantais o gwbl o fynd i banig. Ffolineb dwl gwadu'r cyfan a gwneud dim. Ie, roedd yr hen Martin yn iawn: ystyried, paratoi, a 'phlannu coed afalau'.

## Y byd a'r aelwyd

### Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'

YN ystod y cyfnod o oerfel gawsom, bu'n gyfle i siopa yn Nhreforys — ac i gerdded, gan nad oedd modd defnyddio'n car oherwydd yr eira. Lawr a'n sgidiau mynydda o'r atig, felly, i'n cadw rhag syrthio ar rew tew'r palmentydd.

Bu siopa lleol v siopa archfarchnadoedd yn destun trafod gyda ni ers tro fel i lawer ohonoch chi. Ac wrth i siopau 'lleol' Treforys ddiflannu, yr archfarchnadoedd a orfu. A'r archfarchnadoedd, hefyd, oedd yn cynnig bwydydd organig a Masnach Deg lle nad oedd diddordeb gan y siopau lleol.



Ond yn ogystal ag ymarfer iachusol i'n coesau, a chryfhau cynhesrwydd cymunedol, roedd elw arall i'n deuddydd o ymweld â Woodfield Street — sef gweld bod presenoldeb y Co-op, sydd bellach yn berchen ar archfarchnad gymharol fach Somerfields, yn cael effaith eisoes. Mae bwydydd organig a Masnach Deg wedi ymddangos yno, hefyd, ynghyd ag enghreifftiau eraill o ansawdd gwell. Datgelwn ein bod yn aelodau o'r Co-op ers rhai blynyddoedd oherwydd eu hagweddau moesol a'u hymgyrchoedd cyfiawnder cymdeithasol a chyfeillgar i'r Ddaear.

Felly, roeddem yn hapus i fod ymysg y rhai na ddioddefodd pibau wedi rhewi, esgyrn wedi'u cracio, cymalau wedi eu rhwygo, oherwydd yr eira. Ond fe'n gadawyd gyda phroblem. Ai nawr yw'r amser (eto!) i droi at siopa mwy lleol, at yr hyn sydd ar ôl o'n stryd fawr? Ond beth am y parcio hawdd, dewisiad eang y nwyddau ...? Cewch glywed mwy am hyn, siŵr o fod!

SGWRS ddiweddar yn ein tŷ ni (cuddiwyd yr enwau rhag dwyn gwarth ar neb) ...

**Person 1**: Rwy'n credu bod rhaid i ni fynd ati i feistroli'r dechnoleg newydd. Rhaid i ni wneud y defnydd gorau posib ohono fel y cawn elwa o'r holl fendithion rhyfeddol ddaw i'n rhan o ganlyniad.

**Person 2**: Cytuno. Rhaid imi ddysgu sut i droi'r set deledu ymlaen!

***Hywel a Charlotte***

# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






... gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

